OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 569 (Cy.53)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009

Gwnaed - - - - *9 Mawrth 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *10 Mawrth 2009*
Yn dod i rym - - *1 Ebrill 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 16 a 27 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dirymu

2. Dirymir paragraffau 8, 19 a 20 o Atodlen 1 i Reoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999(**2**).

Dehongli

3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i'r ymadrodd "mannau perthnasol" ("*relevant places*") yr ystyr sydd iddo yn adran 1(4) o'r Mesur;

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Cyhoeddi gwybodaeth

4.—(1) Rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi'r wybodaeth a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 2008 mccc 2. I ganfod ystyr "rhagnodi" a "rheoliadau" *gweler* adran 24(1).
(**2**) O.S. 1999/1812 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/1111, 2001/3710, 2002/1400, 2004/1736, 2004/2914, 2005/1396, 2005/3238, 2005/3239.

(2) Rhaid cyhoeddi'r wybodaeth cyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn y flwyddyn academaidd y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi ond yn achos gwybodaeth sy'n ymwneud â'r flwyddyn academaidd 2009-2010 nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol gyhoeddi'r wybodaeth ond i'r graddau nad yw eisoes wedi gwneud hynny (o dan Reoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999) ac mae'n ofynnol iddo wneud hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(3) Rhaid cyhoeddi'r wybodaeth —

(a) ar wefan yr awdurdod lleol;

(b) drwy ddanfon copïau yn ddi-dâl i rieni pan ofynnir amdanynt, a thrwy sicrhau bod copïau ar gael i rieni a phersonau eraill gyfeirio atynt —

(i) yn swyddfeydd yr awdurdod lleol; a

(ii) ym mhob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol;

(c) drwy sicrhau bod copïau ar gael i rieni a phersonau eraill gyfeirio atynt yn y llyfrgelloedd cyhoeddus yn ardal yr awdurdod;

(ch) drwy ddanfon copïau yn ddi-dâl i rieni disgyblion sydd yn eu blwyddyn olaf mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac eithrio ysgolion arbennig neu unedau cyfeirio disgyblion.

(4) Mae disgyblion yn eu blwyddyn olaf at ddibenion paragraff (3)(ch) os ydynt, yn y flwyddyn cyn y flwyddyn academaidd y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, yn y flwyddyn olaf mewn ysgol ac y gallent drosglwyddo i ysgolion eraill a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

(5) Mae cyhoeddi cymaint o'r wybodaeth ag sy'n berthnasol o ystyried yr ysgolion y gallai disgyblion yn y flwyddyn olaf mewn ysgol benodol drosglwyddo iddynt yn ddigon i gydymffurfio â pharagraff (3)(ch).

(6) Rhaid i'r wybodaeth gael ei chyhoeddi hefyd drwy ddanfon copïau yn ddi-dâl i unrhyw fannau perthnasol eraill y mae'r awdurdod lleol o'r farn y gall dysgwyr sy'n preswylio fel arfer yn ei ardal ddymuno eu mynychu.

Gwybodaeth arall

5.—(1) Pan ofynnir iddo wneud hynny, rhaid i awdurdod lleol roi'r cyfryw wybodaeth a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn ac sydd yn ei feddiant yn rhad ac am ddim i —

(a) corff llywodraethu ysgol yn ei ardal neu ysgol y mae plentyn sy'n preswylio fel arfer yn ei ardal yn ei mynychu,

(b) pennaeth y cyfryw ysgol,

(c) rhiant plentyn sy'n preswylio fel arfer yn ei ardal, neu sydd neu a allai ddod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol yn ei ardal,

(ch) unrhyw ddysgwr sy'n preswylio fel arfer yn ei ardal.

Ieuan Wyn Jones
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru.

9 Mawrth 2009